# PWYLLGOR CRAFFU POLISI AC ADNODDAU

Dydd Llun, 29 Mawrth 2021

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd A.G. Morgan (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
S.M. Allen, D.M. Cundy, W.R.A. Davies, H.L. Davies, W.T. Evans (yn lle D.E. Williams), G.H. John, J.K. Howell, C. Jones, K. Lloyd (yn lle K. Madge), B.D.J. Phillips (yn lle K.V. Broom), J.G. Prosser a/ac J.S. Edmunds

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorwyr D.M. Jenkins, Aelod y Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith
R. Hemingway, Pennaeth Gwasanaethau Ariannol
P.R. Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad)
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd
L. Jenkins, Swyddog Cefnogi Bwrdd Gweithredol
J. Corner, Swyddog Technegol
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Siambr, Neuadd Y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP - 10.00 - 10.45 yb**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr K.V. Broom, K. Madge a D. E. Williams.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL GAN GYNNWYS UNRHYW CHWIPIAU PLEIDIAU A RODDIR MEWN YMATEB I UNRHYW EITEM AR YR AGENDA

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

## 3. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)

Nid oedd cwestiynau gan y cyhoedd wedi dod i law

## 4. ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB CYFALAF A REFENIW 2020/21.

Cyflwynodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau Adroddiad Monitro Cyllideb Gorfforaethol yr Awdurdod ac adroddiadau adrannol y Prif Weithredwr a'r Gwasanaethau Corfforaethol fel yr oeddent ar 31 Rhagfyr 2020 mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2020/21. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys atodiad a oedd yn rhoi manylion Monitro Arbedion 2020-21. Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod yr achos busnes dros Bentref Llesiant Pentre Awel bellach wedi'i gymeradwyo.
Dywedwyd er bod y broses o lenwi swyddi gwag wedi arafu, a hynny'n rhannol oherwydd y pandemig, gan arwain at danwariant mewn meysydd cysylltiedig

megis cost gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, fod disgwyl i recriwtio gynyddu wrth i'r cyfyngiadau symud lacio.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

## 5. ADRODDIAD CHWARTEROL YNGYLCH RHEOLI'R TRYSORLYS A DANGOSYDD DARBODAETH EBRILL 1AF 2020 I RHAGFYR 31AIN 2020.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr Adroddiad Canol Blwyddyn ynghylch Dangosyddion Darbodaeth a Rheoli'r Trysorlys am y cyfnod 1af Ebrill 2020 - 31ain Rhagfyr 2020, i sicrhau bod y gweithgareddau a wnaed yn unol â gofynion Polisi a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys am 2020-21 a fabwysiadwyd gan y Cyngor ar 3 Mawrth 2020.
Mewn ymateb i sylw, dywedwyd wrth y Pwyllgor, er y cytunwyd, o dan Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, i fenthyca cyllid pan oedd cyfraddau llog ar eu mwyaf manteisiol (fel yr oedd hi ar hyn o bryd), fod y Cyngor mewn sefyllfa ar hyn o bryd lle'r oedd yn gallu defnyddio ei falansau arian parod gan arbed ar ofynion benthyca. Fodd bynnag, roedd y sefyllfa'n cael ei hadolygu'n gyson. Pwysleisiwyd mai diben benthyca oedd cefnogi cynlluniau cyfalaf ac nid y gyllideb refeniw.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r adroddiad monitro.**

## 6. DIWEDDARAF AM WEITHREDIADAU AC ATGYFEIRIADAU'R PWYLLGOR CRAFFU POLISI AC ADNODDAU.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r adroddiad a fanylai ar y cynnydd o ran y camau gweithredu, y ceisiadau, neu'r atgyfeiriadau oedd wedi deillio o gyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Craffu.**

## 7. EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn rhestr o eitemau ar gyfer y dyfodol a oedd i'w hystyried yn y cyfarfod nesaf ar 30 Ebrill 2021.**

## 8. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y PWYLLGOR A GYNHALIWYD AR

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 2il ac 8fed Mawrth 2021 gan eu bod yn gywir.**

____________________________ _____________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**